**From:** **edwvalleydesigns** info@edwvalleydesigns.co.uk
**Subject:**
**Date:** 10 September 2020 at 14:33
**To:**




**Ffigyrau Covid-19**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi bod **150** achos newydd o'r coronafeirws wedi'u cadarnhau yng Nghymru ar 8 Medi, gan ddod â chyfanswm yr achosion i **18,664.** Cyfanswm yr achosion yn y sir ar 8 Medi yw **407**, er mae'r ffigwr hwnnw'n debygol o fod yn llawer uwch.

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer y rhai fu farw ym Mhowys o ganlyniad i'r COVID-19 neu'n rhannol ar 28 Awst oedd 95 – 48 mewn cartrefi gofal, 38 mewn ysbytai a naw gartref – dim cynnydd ar y ffigyrau blaenorol.

Ers dechrau'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu ar 1 Mehefin a than ddiwedd 8 Medi, cafwyd 147 achos positif ar gyfer Olrhain Cysylltiadau. Mae'r rhain yn cael eu galw'n "achosion cyfeirio". Llwyddwyd i olrhain y cysylltiadau i gyd gan arwain at nodi 322 o gysylltiadau hyd yma. Rhoddwyd cyngor a chanllawiau priodol ar hunan-ynysu i'r holl gysylltiadau.

**Diweddariadau Llywodraeth Cymru**

Bydd y rheolau coronafeirws yn cael eu tynhau ar draws Bwrdeistref Caerffili i atal y feirws rhag ymledu ymhellach dywedodd y Gweinidog Iechyd Vaughan Gething: https://llyw.cymru/cyfyngiadau-lleol-i-reolir-coronafeirws-yn-sir-caerffili

Bydd cannoedd o brosiectau sy'n hybu'r economi wledig, gwella bioamrywiaeth a gwella gwytnwch y sector bwyd dros Gymru'n derbyn buddsoddiad ariannol o £106m dros y tair blynedd nesaf: https://llyw.cymru/cyhoeddi-buddsoddiad-newydd-o-fwy-na-ps100miliwn-yn-economi-wledig-cymru

Heddiw, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Vaughan Gething gefnogaeth ychwanegol i helpu unrhyw un yng Nghymru â phroblem iechyd meddwl:https://llyw.cymru/ps13m-i-gefnogi-pecyn-o-wasanaethau-iechyd-meddwl-i-bawb

**Diweddariad Cyngor Sir Powys**

Mae bron i 500 o bobl wedi cael eu profi mewn canolfan brofi coronafeirws symudol yn Y Trallwng dros y pedwar diwrnod diwethaf. Mae mwyafrif y profion wedi bod yn negyddol ond cafwyd 26 o ganlyniadau positif hyd yma: https://cy.powys.gov.uk/article/9661/Diweddariad-am-gynnal-profion-coronafeirws-yn-y-Trallwng

Ar 1 Mai 2020 cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun sy'n cydnabod ac yn gwobryo gweithwyr gofal cymdeithasol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros pandemig Covid-19. Mae Cyngor Sir Powys yn falch i fod yn gweinyddu taliadau penodol o £500 ar ran Llywodraeth Cymru a bydd yn ysgrifennu at gyflogwyr a staff gofal cymwys ar draws y sir:https://cy.powys.gov.uk/article/9653/Ceisiadaun-agor-ar-gyfer-y-tal-o-500-i-weithwyr-gofal

---

- Rheoliadau coronafeirws - cwestiynau cyffredin
- Cwestiynau cyson ar addysg bellach ac uwch
- Datganiad ysgrifenedig: Cyfarpar Diogelu Personol
- Cwestiynau cyson ar rôl ysgolion dros y pandemig

Mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru - https://llyw.cymru/coronafeirws

**Covid-19 figures**

Public Health Wales has reported as of September 8 a further **150** new confirmed cases of coronavirus in Wales, bringing the total number of cases to **18,664**, the total number of cases for Powys as at September 8 stands at **407** although the figure is likely to be much higher.

Figures issued by the Office of National Statistics (ONS) on the number of deaths in Powys attributed, either wholly or in part to COVID-19, as at August 28 was 95 – 48 in care homes, 38 in hospital and nine at home – no increase on previous figure.

Since the commencement of the Test Trace and Protect (TTP) programme on the 1st of June and up to the end of the 8 September, we have identified 147 positive test results that are appropriate for Contact Tracing. These are so called "index cases". Those cases have all been successfully contact traced and this has led to the identification of 322 contacts to date. Appropriate self-isolation advice and guidance has been provided to all such contacts.

**Welsh Government updates**

Coronavirus laws will be tightened across Caerphilly borough to prevent a local outbreak of the virus spreading, Health Minister Vaughan Gething said: https://gov.wales/local-lockdown-restrictions-imposed-control-caerphilly-outbreak

Hundreds of projects boosting the rural economy, enhancing biodiversity and improving food sector resilience throughout Wales will be backed by a £106m financial investment for the next three years: https://gov.wales/more-ps100million-new-investment-wales-rural-economy-announced

Health Minister, Vaughan Gething, has today announced additional mental health support that anyone in Wales can access when they need to: https://gov.wales/ps13m-support-package-mental-health-services-all-wales

**Powys County Council updates**

Nearly 500 people have been tested at a mobile coronavirus testing centre in Welshpool over the last four days. The majority of the tests have come back negative but there have been 26 positive test results so far: https://en.powys.gov.uk/article/9660/Welshpool-coronavirus-testing-update

The Welsh Government introduced a scheme on 1 May 2020, which recognises and rewards social care workers for their hard work and commitment during the COVID-19 pandemic. Powys County Council (PCC) are proud to be administering one-off payments of £500 on behalf of Welsh Government and will be writing to all employers and direct payment recipients of all eligible care staff across the county:https://en.powys.gov.uk/article/9652/Applications-for-500-Care-Worker-payment-are-now-open

---

- Coronavirus regulations: frequently asked questions
- FAQs for higher and further education
- Written statement on the availability of PPE
- FAQs on the role of schools during the coronavirus pandemic.

More information from Welsh Government - https://gov.wales/coronavirus

---


Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.